## GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A40 (CYLCHFAN PEN-SARN I GYLCHFAN PONT LESNEVEN, CAERFYRDDIN, SIR GAERFYRDDIN) (GWAHARDD CERBYDAU DROS DRO ) 2022

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A40, neu gerllaw iddi, rhwng Cylchfan Pen-sarn a Chylchfan Pont Lesneven yng Nghaerfyrddin, Sir Gaerfyrddin.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd, ac eithrio'r rhai a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys neu ar gyfer y gwaith, rhag mynd ar y darn o gefnffordd yr A40 sy'n ymestyn o'i chyffordd ag ochr orllewinol Cylchfan Pen-sarn hyd at ei chyffordd ag ochr ddwyreiniol Cylchfan Pont Lesneven.

Y llwybr arall i gerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin yw mynd ar yr A40 tua'r gogledd-ddwyrain i Gylchfan Llangynnwr, ar Heol Llangynnwr tua'r gorllewin, ar yr A484 tua'r gogledd a'r A4242 tua'r de-orllewin i ailymuno â'r A40 yng Nghylchfan Pont Lesneven: i'r gwrthwyneb ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain.

Daw'r Gorchymyn i rym ar 26 Mawrth 2022. Dim ond ar y gerbytffordd tua'r dwyrain y disgwylir i'r gwaharddiad dros dro fod yn weithredol, o 20:00 o'r gloch ar 26 Mawrth hyd 06:00 o'r gloch ar 27 Mawrth 2022. Disgwylir y bydd y gerbytffordd tua'r gorllewin ar gau o 20:00 o'r gloch ar 2 Ebrill hyd 06:00 o'r gloch ar 3 Ebrill 2022 neu hyd nes caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y dyddiadau a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan Llywodraeth Cymru ar https://llyw.cymru/gorchmynion-ffyrdd.

**Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchmynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

## THE A40 TRUNK ROAD (PENSARN ROUNDABOUT TO PONT LESNEVEN ROUNDABOUT, CARMARTHEN, CARMARTHENSHIRE) (TEMPORARY PROHIBITION OF VEHICLES) ORDER 2022

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984, which is necessary to undertake works on or near the A40 trunk road between Pensarn Roundabout and Pont Lesneven Roundabout at Carmarthen, Carmarthenshire.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles, other than those being used by the emergency services or for the works, from proceeding on the length of the A40 trunk road that extends from its junction with the western side of Pensarn Roundabout to its junction with the eastern side of Pont Lesneven Roundabout.

The alternative route for westbound vehicles is via the north-eastbound A40 to Llangynnwr Roundabout, westbound Heol Llangynnwr, northbound A484 and south-westbound A4242 to rejoin the A40 at Pont Lesneven Roundabout: vice versa for eastbound traffic.

The Order comes into force on 26 March 2022. The temporary prohibition is expected to operate on the eastbound carriageway from 20:00 hours on 26 March until 06:00 hours on 27 March 2022. The westbound carriageway is expected to be closed from 20:00 hours on 2 April until 06:00 hours on 3 April 2022 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate on the dates specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at https://gov.wales/road-orders.

**A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.**

**J SADDLER**
Transport
Welsh Government